**<u>Cyngor Tref Amlwch Town Council</u>**
<u>Cofnodion cyfarfod y Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, nos Fawrth Ionawr 27, 2026 am 7yh.</u>
*<u>Minutes of the Full Council meeting held at the Council Chamber, Tuesday January 27, 2026 at 7pm.</u>*

**<u>Presennol/Present:</u>**
Gareth Winston Roberts OBE, Gerry Belanger, Myrddin Owens, Meg Roberts, Gordon Warren, Julie Edwards, Noel Kerr, Gareth Thomas, Geraint Thomas, Derek Owen

**<u>Ymddiheuriadau/Apologies:</u>**
John Gill, Elin Owen, Llinos Knowles Williams, Liz Wood, Alan Wood, Aled Morris Jones

**<u>Yn bresennol/In attendance:</u>**
Carli Evans Thau (clerc/clerk), Aled Job (cyfieithu/translator)

**1 Croeso ac Ymddiheuriadau / Welcome and Apologies**
Bu Gareth Winston Roberts OBE gadeirio'r cyfarfod a chroesawy pawb yn bresennol.
*Gareth Winston Roberts OBE chaired the meeting and welcomed all present.*

**2 Datgan Diddordeb / Declaration of Interest**
Noel Kerr – cais cynllunio Mount View planning application

**3 Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf / Minutes of the Last Meeting**
Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, cynnig Myrddin Owens, eilio Meg Roberts.
*The minutes of the last meeting were approved, proposed Myrddin Owens, seconded meg Roberts.*

**4 Materion yn Codi / Matters Arising**
Dim materion yn codi / *No matters arising.*

**5 Cyfarfodydd Allanol / External Meetings**
5.1 Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru / One Voice Wales Area Committee
Cafwyd wybod gan Gordon Warren nad oedd wedi gallu mynychu'r cyfarfod. Bu cyflwyniad gan Sam Langdon, swyddog bioamrywiaeth ULlC. Nododd fodd bynnag bod Sam Langdon wedi ymweld ag Amlwch i gwrdd a'r clerc bore 'ma.

*Gordon Warren noted that he had not been able to attend the meeting. There was a presentation by Sam Langdon, OVW's biodiversity officer. He noted however that Sam Langdon had visited Amlwch to meet with the clerk this morning.*

5.2 Cyfarfod Blynyddol Un Llais Cymru AGM
Cafwyd grynodeb gan Gordon Warren yn dilyn y cyfarfod. Nododd bydd newid y cworwm ar gyfer cyfarfod blynyddol i 10% o'r aelodaeth.

*Gordon Warren gave a summary following the meeting. He noted that the quorum for an annual meeting will be changed to 10% of the membership.*

**6 Pwyllgor Parciau a Mannau Agored / Parks and Open Spaces Committee**
Cafwyd grynodeb gan Gordon Warren o'r cyfarfod diwethaf. Nodwyd bod y pwyllgor wedi gor wario yn ystod y flwyddyn, a bod hyn o ganlyniad i waith cafodd ei gomisiynnu yn y flwyddyn ariannol diwethaf yn cael ei dalu ddechrau'r flwyddyn ariannol yma. Mae hefyd gwaith angenrheidiol ym Mharc Natur Trehinion; mae'r pwyllgor cyllid wedi cytuno clustnodi arian tuag at y gor wariant a'r gwaith diogelwch hanfodol.

Bu tynnu sylw bod hysbyseb ar gyfer gwaith torri gwair ym Mharc Lon Goch a Chae Craig y Don wedi ei rannu, mae angen cyflwyno prisiau erbyn Chwefror 20 mewn amlenni caedig.

Cafwyd grynodeb o'r cyfarfod gyda Sam Landgon, mae gan Un Llais Cymru becynnau bioamrywiaeh i'w rhannu a Chynghorau Tref a Chymuned a bydd y clerc yn cyflwyno'r ceisiadau perthnasol maes o law.

*Gordon Warren gave a summary of the last meeting. It was noted that the committee had overspent during the year, and that this was a result of work that was commissioned in the last financial year being paid at the beginning of this financial year. There is also tree safety work required in Trehinion Nature Park; the finance committee has agreed to allocate money towards the overspend and the essential safety work.*

*It has been pointed out that an advertisement for grass cutting work in Lon Goch Park and Craig y Don Field has been shared, prices need to be submitted by February 20 in sealed envelopes.*

*There was a summary of the meeting with Sam Landgon, Un Llais Cymru has biodiversity packages to share with Town and Community Councils and the clerk will present the relevant applications in due course.*

**7 Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**

Cafwyd adroddiad gan Myrddin Owens yn dilyn cyfarfod y pwyllgor. Bu cymeradwyo nifer o daliadau fel yr arfer, mae manylion pellach ar gael gan y clerc. Bu cadarnhau balans pob cyfrif banc.

Derbyniwyd un cais am gefnogaeth ariannol, a bydd trafod y cais yn llawn pan fydd gwybodaeth cefnogol wedi'i gyflwyno. Daw cais hefyd gan y Pwyllgor Parciau a Mannau Agored fel soniwyd yn eu hadroddiad uchod.

Bu trafodaeth manwl am y gyllideb a'r priseb. Bu'r pwyllgor argymell codi'r dreth 5% a bu cefnogaeth unfrydol. Bu diolch i'r pwyllgor am eu gwaith. Bydd cyllideb y Cyngor am 2026/27 yn £176,937, gydag archeb o £131,322.

Bu nodi bod angen cyfarfod gyda John Gill i drafod y posibilrwydd o ddarparu toiledau cyhoeddus ym Mhorth Amlwch drwy'r flwyddyn. Byddai angen cytundeb gydag unrhyw wirfoddolwyr fyddai yn gyfrifol am y gwaith. Nodwyd pryderon am unrhyw gostau ychwanegol.

Mae'r Cyngor eisioes wedi cytuno prynnu'r Llofft Hwyliau gan Menter Mon am £70k. Bu gytuno byddai defnyddio arian Canataxx (£54k) a chlustnodi £20k o'r arian wrth gefn i brynnu'r adeilad a thalu unrhyw gostau cyfreithiol perthnasol. Pwysleiswyd nad oedd arian Canataxx wedi dod o'r dreth, yn hytrach wedi ei ddiogelu gan Gareth Winston Roberts tuag brosiectau cyfalaf o'r fath yn dilyn trafodaethau gyda'r cwmni rhai blynyddoedd yn ol. Bu'r aelodau'n unfrydol gefnogol i'r cynnig.

Ni fu ymateb gan yr Ombwdsmon pan fu'r pwyllgor gwrdd, ond ers hynnu cafwyd wybod nad oedd bwriad ymchwilio ymhellach i'r gwyn a wnaed gan y Cyngor yn erbyn aelod. Mae copi o'r llythyr penderfyniad gan y Clerc os oedd unrhyw aelod am ei ddarllen yn llawn.

Trafodwyd cais cynllunio ar gyfer safle Octel. Bu diolch i'r unigolion hynnu fu ynghlwm a sicrhau bod y safle yn cael ei adnabod yn barth fenter, ac felly yn cael ei gynnwys yng nghynllun porthladd rhydd Caergybi.

Bu diolch i Myrddin Owens am ei adroddiad.

*A report was given by Myrddin Owens following the committee meeting. A number of payments were approved as usual, further details are available from the clerk. The balance of each bank account was confirmed.*

*One request for financial support has been received, and the request will be considered in full when supporting information has been submitted. A request also comes from the Parks and Open Spaces Committee as mentioned in their report above.*

*There was a detailed discussion about the budget and the precept. The committee recommended raising the council tax by 5% and there was unanimous support. The committee was thanked for their work. The Council's budget for 2026/27 will be £176,937, with an order of £131,322.*

*It was noted that a meeting with John Gill was needed to discuss the possibility of providing public toilets in Porth Amlwch throughout the year. An agreement would be required with any volunteers who would be responsible for the work. Concerns were noted about any additional costs.*

*The Council has already agreed to buy the Sail Loft from Menter Mon for £70k. It was agreed that Canataxx money (£54k) would be used and £20k earmarked from the reserve to buy the building and pay any relevant legal costs. It was emphasised that the Canataxx money did not come from the ratepayers, rather it had been secured by Gareth Winston Roberts towards such capital projects following discussions with the company a few years ago. The members were unanimously supportive of the proposal.*

*There was no response from the Ombudsman when the committee met, but since then it was reported that the complaint made by the Council against a member would not be investigated further. A copy of the decision letter can be seen with the clerk should any member wish to read it in full.*

*A planning application for the Octel site was discussed. Thanks to the individuals who were involved in ensuring that the site was recognised as an enterprise zone, the site is included in the Holyhead Freeport programme.*

*Myrddin Owens was thanked for his report.*

**8 Cyllideb ac Archeb 2026/27 Budget and Precept**
Gweler adroddiad y Pwyllgor Cyllid uchod.
*See Finance Committee report above.*

**9 Diweddariad Adeiladau Porth Amlwch Port Buildings Update**
Gweler adroddiad y Pwyllgor Cyllid uchod.
*See Finance Committee report above.*

**10 Cynllunio / Planning**

10.1 Bu ystyried nifer o geisiadau. Cadarnhawyd bod manylion wedi eu hanfon drwy ebost wrth eu derbyn:
*A number of applications were considered. It was confirmed that details were forwarded as received:*

- FPL/2025/312 Parc Mawr, Amlwch – dim gwrthwynebiad/no objection
- HHP/2025/89 Borthwen, Amlwch – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL/2025/246 Stad Diwydiannol Amlwch – dim gwrthwynebiad/no objection
- FPL/2026/13 Mount View, Llaneilian Rd – gwrthod - gorddatblygiad/object – over development
- FPL/2025/305 Octel, Amlwch – trafodwyd y datblygiad mewn manylder, mae angen llawer mwy o wybodaeth ac ystyried yr effaith posib ar ddatblygiadau eraill yn yr ardal. Cytuno byddai gofyn i CSYM am fwy o wybodaeth a threfnu cyfarfod gyda chynrychiolaeth o'r adran economaidd, perchenog y safle a'r aelodau sirol. / *The development was discussed in detail, much more information is needed and consideration of the possible impact on other developments in the area. It was agreed that IACC would be asked for more information and to arrange a meeting with representation from the economic department, the owner of the site and the county councillors*

10.2 Cafwyd wybod am benderfyniadau CSYM fel a ganlyn:
*IACC decisions were noted as follows:*

- TPO/2025/22 Parc Natur Trehinion – wedi ei ganiatau/granted

10.3 Nodwyd siom nad oedd ymgais adolygiad barnwrol CSYM ar ddatblygiad fferm solar Alaw Mon wedi bod yn llwyddianus. Nid oes gwybodaeth pellach hyd yma. Mae bwriad cynnal cyfarfod Partneriaeth Cynghorau Gogledd Mon ar y cyd a Grwp Cadw Tir Mon a chynrychiolaeth elusen Diogelu Cymru Wledig i drafod y camau nesaf yn yr ymgyrch i ddiogelu Mon rhag dablygiadau solar mawr. Nodwyd pryder nad oedd CSYM wedi bod mewn cysylltiad ac nad oedd datganiad swyddogol wedi ei wneud mewn ymateb i fethiant yr arolwg barnwrol. Pwysleiswyd eto yr angen i ddiogelu Mon ei bobl a'u diwylliant.

*Disappointment was noted that the IACC judicial review attempt on the development of the Alaw Mon solar farm had not been successful. There is no further information so far. It is intended to hold a North Anglesey Councils Partnership meeting together with representation from Grwp Cadw Tir Mon and CPRW to discuss the next steps in the campaign to protect Anglesey from major solar developments. Concern was noted that IACC had not been in contact and that no official statement had been made in response to the failure of the judicial review. The need to protect Anglesey, its people and their culture was emphasised. again*

**11 Ymgynghoriad CSYM – Casglu Gwastraff / IACC Consultation – Waste Collection**

Trafodwyd yr ymgynghoriad gan nodi pryderon am lygru a sbwriel os nad yw biniau yn cael eu gwagio; mae angen annog pobl i ailgylchu gyda gwell adnoddau a gwasanaeth. Gofynnwyd os byddai posib treialu cynnigion mewn ardaloedd penodol am gyfnod o chwe mis ac asesu eto cyn newid yr ynys gyfan.

*The consultation was discussed noting concerns about fly tipping and littering if bins are not emptied; people need to be encouraged to recycle with better resources and service. It was asked if it would be possible to trial proposals in specific areas for a period of six months and assess again before changing the whole island.*

**12 Cwestiynau i'r Cynghorwyr Sirol / Questions to the County Councillors**

Ni fu cwestiynnau yn codi / *No questions arising*

**13 Gohebiaeth / Correspondence**

Ni fu unrhyw ohebiaeth nad oedd wedi ei anfon at yr aelodau drwy ebost wrth ei dderbyn.
*There were no items of correspondence not already circulated to members by email as and when received.*

13.1 Bu tynnu sylw at orymdaith Dewi Sant sydd yn cymryd lle 25-2-2026, mae gofyn am wirfoddolwyr i gefnogi a stiwardio ar hyd y ffordd.

*Attention was drawn to the St David's procession which takes place on 25-2-2026, volunteers are required to support and steward along the way.*

13.2 Bu tynnu sylw at ymgynghoriad CSYM am gynghorau tref a chymuned, bu trafod y cwestiynnau a nodwyd a chytuno bod y system bresennol yn gweithio'n dda i gynrychioli y tri ward.

*Attention was drawn to the IACC consultation about town and community councils, the questions listed were discussed and it was agreed that the current system works well to represent the three wards.*

**14 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Llawn i'w gynnal nos Fawrth Chwefror 24, 2026 am 7yh.
*The next Full Council meeting will be held Tuesday February 24, 2026 at 7pm.*

Bu'r cyfarfod orffen am 8yh / *The meeting closed at 8pm*

**Gareth Winston Roberts OBE**
**Cadeirydd/Chair**
**Cyngor Tref Amlwch Town Council**
CET01-26